

Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro

Tasgau Cyfoethog

Ardal: Coedwig

Amcan Dysgu: **Dod o hyd i batrymau llusosi gan ddefnyddio ddail.**

Grŵp Blwyddyn y

CC: Blynnyddoedd

3/4/5/6

Gweithgaredd cyffredinol yn ymwneud â phob tabl llusosi – gallwch ei wahaniaethu ar gyfer eich disgyblion.

Maes Dysgu: Mathemateg/Rhifedd

Rhaglen Astudio Mathemateg

Datblygu Ymresymu Rhifyddol

Adnabod prosesau a chysylltiadau

- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd
- Adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad
- Dewis mathemateg a thechneg briodol i'w defnyddio
- Dewis strategaeth feddwl neu ysgrifenedig briodol

Cynrychioli a chyfathrebu

- Egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol
- Mireinio dulliau anffurfiol o gofnodi cyfrifiadau ysgrifenedig, gan symud i ddulliau cyfrifo ffurfiol pan fyddant wedi datblygu digon i wneud hynny

Adolygu

- Dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrol

Defnyddio sgiliau rhif

Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhif

- Galw tablau llusosi 2, 3, 5 a 10 i gof a'u defnyddio i ddatrys problemau llusosi a rhannu syml (B3)
- Defnyddio ystod o strategaethau meddwl i alw tablau llusosi 2, 3, 4, 5, 6 a 10 i gof a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu (B4)
- Defnyddio ystod o strategaethau meddwl i alw tablau llusosi 2, 3, 4, 5, 6, 8 a 10 i gof a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu (B5)
- Defnyddio ystod o strategaethau meddwl i alw tablau llusosi i gof hyd at 10×10 a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu (B6)

Amcangyfrif a gwirio

- Gwirio atebion drwy ddefnyddio gweithrediadau gwrthdro

Pennawd/Addas i blant

Darganfod amrywiaeth o ddail yn y goedwig i'n helpu ni i greu rhai patrymau llusosi.

Meini Prawf Llwyddiant

- Adnabod yr amrywiaeth o ddail sydd ar gael yn y goedwig a phenderfynu pa ddail

byddwn ni'n eu casglu (dail sydd wedi disgyn i'r ddaear).

- Didoli'r dail mewn grwpiau o ddail tebyg.
- Tynnu llun tabl i ddangos y math o ddeilen (braslun neu enw) a nifer y llabedau.
- Adnabod ffyrdd o gyfrif fesul 2, 3, 5 ac ati, yn dibynnu ar y dail, a gosod y dail i ddangos y tabl llusosi yn ôl nifer y llabedau.
- Defnyddio'r dail sydd wedi'u trefnu i adrodd y tablau llusosi.
- Creu a datrys problemau'n gysylltiedig â llusosi a rhannu

Beth i'w wneud:

Yn yr ardal, gofynnwch i'r plant gasglu cymaint o wahanol enghreifftiau â phosibl o ddail, yn yr amser sydd wedi'i roi. Cymharwch y dail a'u didoli mewn trefn yn ôl nifer y dail bychain (rhannau) sydd ganddynt, e.e. mae 5 o ddail bychain gan y gastanwydden.

Dail cyfansawdd sy'n gweithio orau, sef dail tebyg i ddail castanwydden. Felly, mae 5 deilen fechan gan 1 ddeilen, 10 deilen fechan gan 2 ddeilen, 15 deilen fechan gan 3 deilen, ac ati.



Pan fydd y plant yn dod o hyd i enghreifftiau o ddail gyda thair deilen fechan, rhowch her iddyn nhw greu teulu ffeithiau gan ddefnyddio'r dail, e.e. $4 \times 3 = 12$, $3 \times 4 = 12$, $12 \div 4 = 3$, $12 \div 3 = 4$ ar daflenni wedi'u lamineiddio.



Mae dail onnen yn amrywio'n fwy, ond mae'n bosibl casglu dail â 9 deilen fechan, e.e. $3 \times 9 = 27$.



Mae nodwyddau pinwydden yr Alban bob amser yn tyfu mewn parau (pinwydden = pâr).

2×10 nodwydd = 20.



Gofynnwch i'r plant greu cwestiynau fel 'Mae gen i gastanwydden. Mae 9 cangen ac mae 7 deilen ar bob cangen. Faint o ddail bychain sydd yno yn gyfan gwbl?'

Gweithgaredd i ddisgyblion mwy abl a thalentog

I'r mathemategwyr abl iawn yn eich dosbarth, efallai bydden nhw'n hoffi greu symiau llusoi ar gyfer ffrondau rhedyn...



A yw eich dosbarth yn gallu dod o hyd i ddail cyfansawdd i gynrychioli pob tabl llusoi o 2 i 10? A all bob un ohonyn nhw greu swm, yna chael cystadleuaeth i weld pwy yw'r cyflymaf i ddatrys pob swm?

Gweithgareddau ymestyn posibl:

Cymharu arwynebedd dail

Cymesuredd dail

Mesur dail gan ddefnyddio unedau mesur safonol gwahanol a throsi mesurau

Adnoddau:

Ardal goedwig

Dail

iPad ar gyfer tynnu lluniau

Taflenni wedi'u lamineiddio

Pen ysgrifennu ar gyfer bwrdd gwyn

Cysylltiadau cwricwlaidd:

Mathemateg

Gwyddoniaeth

Llythrennedd